



Polisi Iaith Gymraeg

Fersiwn 1

28/03/2018

Polisi Iaith Gymraeg
Cynnwys

1	Cefndir	3
	1.1 Safonau Iaith Gymraeg	3
	1.2 Datganiad o Egwyddor	3
2	Darparu Gwasanaethau	4
	2.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig	4
	2.2 Ateb y Ffôn	4
	2.3 Gwneud Galwadau Ffôn	5
	2.4 Cyfarfodydd, Cyflwyniadau a Seminarau	5
	2.5 Cyhoeddiadau, Brandio a Hunaniaeth Gyhoeddus	5
	2.6 Cyhoeddusrwydd	7
	2.7 Hysbysebion a Hysbysiadau	7
3	Gweithredu Mewnol	8
	3.1 Bwrdd y Gorfforaeth	8
	3.2 Staffio a Recriwtio	8
	3.3 Ymrwymadau Tîm	9
	3.4 Cyflogi, Hyfforddi a Datblygu Staff	10
	3.5 Cyfieithu	10
4	Llunio Polisiâu	12
	4.1 Polisiâu a Chynlluniau Newydd	12
	4.2 Tendrau	12
	4.3 Grantiau a Chontractau	13
5	Monitro ac Adrodd	14
	5.1 Monitro	14
	5.2 Adrodd	14
	5.3 Datblygu Ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r Cynllun Gweithredu	14

1 Cefndir

- 1.1 Mae'r Safonau Iaith Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn egluro sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio'r iaith Gymraeg wrth gynnal eu busnes a darparu gwasanaethau.
- 1.2 Yr ydym ni, Grŵp Llandrillo Menai, yn cadw at yr egwyddor y byddwn, wrth gynnal ein busnes, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hyrwyddo defnydd a thwf yr iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.

2 Darparu Gwasanaethau

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r modd y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â rhai o'r Safonau Darparu Gwasanaethau ac yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n effeithiol bob amser â ddysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn ddwyieithog.

2.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

2.1.1 Mae croeso i ddysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyfathrebu â'r Grŵp yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis. Bydd llythyrau a dderbynnir gennym yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn y Gymraeg, a'u llofnodi. Byddwn yn cadw at yr un amserlen wrth ateb gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.1.2 Eir ymlaen i gysylltu yn y Gymraeg â phawb sydd wedi ysgrifennu atom yn y Gymraeg, neu sydd wedi mynegi dymuniad i drafod â ni yn y Gymraeg. Byddwn yn cofnodi dewis iaith y sawl sy'n ysgrifennu atom yn rheolaidd.

Yn ogystal, gohebiaeth Gymraeg fydd yn dilyn sgwrs ffôn neu gyfarfod wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn y Gymraeg, oni bai fod cais wedi'i wneud am ohebiaeth Saesneg.

2.1.3 Bydd cylchlythyrau a llythyrau safonol yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.

2.1.4 Bydd staff nad ydynt yn deall yr ohebiaeth a anfonir atynt yn y Gymraeg yn trefnu bod llythyrau byr yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg, naill ai gan wasanaeth cyfieithu'r Grŵp neu gydweithiwr dwyieithog.

2.1.5 Anfonir gohebiaeth sy'n hir neu'n gymhleth at y gwasanaeth cyfieithu drwy ddefnyddio Trosi ar Borth y Grŵp.

2.2 Ateb y Ffôn

2.2.1 Cyfloga'r Grŵp staff dwyieithog i ateb pob galwad i'n prif linellau ffôn.

2.2.2 Rhaid ateb pob galwad i'n llinell uniongyrchol yn ddwyieithog a'i throsglwyddo i siaradwr Cymraeg i symud yr alwad ymlaen os dyna yw dymuniad y sawl sy'n galw. Ceir sgript ddwyieithog ar gyfer cyfarch pawb sy'n ffonio yn yr adran Safonau Iaith Gymraeg ar Borth y Grŵp.

2.2.3 Ceir neges ddwyieithog ar beiriannau ateb sy'n nodi bod croeso i'r sawl sy'n ffonio adael neges yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ymatebir i'r neges yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y sawl a ffoniodd.

2.2.4 Bydd negeseuon a recordiwyd ar rifau ffôn uniongyrchol aelodau staff yn adlewyrchu eu gallu ieithyddol, ond bydd y cyfarchiad cychwynnol yn ddwyieithog.

2.3 Gwneud Galwadau Ffôn

Cofnodir dewis iaith unigolion ar systemau mewnol megis EDRAC. Pan fydd aelod o staff yn gwneud galwad ffôn allanol, bydd yn gwirio a yw dewis iaith yr unigolyn wedi'i gofnodi ar unrhyw system berthnasol. Os nad yw dewis iaith yr unigolyn wedi'i chofnodi, bydd rhaid sefydlu pa iaith yr hoffai'r unigolyn ei defnyddio a chofnodi hyn at y dyfodol.

2.4 Cyfarfodydd, Cyflwyniadau a Seminarau

2.4.1 Os bydd y Grŵp yn cynnal cyfarfodydd â dysgwyr neu aelodau o'r cyhoedd, bydd yn annog y defnydd o'r Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd yn gwneud hynny drwy roi amrywiaeth o fesurau ar waith yn cynnwys:

- cofnodi dewis iaith unigolion
- cyflogi staff dwyieithog
- darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd
- darparu pob deunydd yn gwbl ddwyieithog.

2.4.2 Pan wahoddir unigolion i gymryd rhan mewn cyfarfod (a'i fod felly'n cael ei ystyried yn gyfarfod mewnol) bydd y mesurau a nodir yn 2.4.1 yn cael eu rhoi ar waith fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn berthnasol i bob cyfarfod.

2.4.3 Bydd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog, a bydd y Grŵp yn sicrhau bod staff dwyieithog yn bresennol i drafod ag unigolion yn eu dewis iaith.

2.4.4 Gall y sawl sy'n galw heibio i unrhyw un o gampysau'r Grŵp drafod eu busnes yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i drafod ag unigolion yn y ddwy iaith.

2.4.5 Mae croeso i unigolion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng negeseuon electronig ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Unwaith eto, byddwn yn ymateb yn iaith y neges wreiddiol. Mae llofnodion e-bost aelodau staff wedi cael eu diweddarau i annog y defnydd o'r Gymraeg a defnyddir arwydd i ddangos a ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

2.5 Cyhoeddiadau, Brandio a Hunaniaeth Cyhoeddus

2.5.1 Byddwn yn cyhoeddi'n holl ddeunyddiau corfforaethol yn ddwyieithog – pa un ai ar ein gwefan neu ar ffurf copi caled.

- 2.5.2 Pan fydd deunydd yn cael ei gyhoeddi mewn ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Bydd y ddau fersiwn yn cael eu dosbarthu a'u harddangos gyda'i gilydd, yr un mor hawdd eu cael, ac o'r un safon. Bydd deunyddiau corfforaethol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ond os, mewn eithriadau prin, cânt eu cyhoeddi ar wahân, bydd y naill fersiwn a'r llall yn egluro bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall.
- 2.5.3 Pan godir pris, ni fydd pris dogfen gorfforaethol ddwyieithog yn uwch na phris fersiwn uniaith o'r ddogfen honno. Pan godir pris ar fersiynau uniaith o ddogfennau cyhoeddedig, ni fydd pris y fersiwn Cymraeg yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.
- 2.5.4 Bydd dogfennau templed y Grŵp, yn cynnwys anfonebau, yn cael eu hargraffu'n ddwyieithog, a'u hysgrifennu'n unol â'r meini prawf a nodir yn adran 2.1 ar ohebiaeth ysgrifenedig.
- 2.5.5 Bydd staff, ymgynghorwyr, datblygwyr a dylunwyr gwefan, ynghyd ag argraffwyr ein cyhoeddiadau dwyieithog, yn derbyn canllawiau ysgrifenedig ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog.
- 2.5.6 Pan fydd deunyddiau'n cael eu cyhoeddi mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd staff sy'n ymwneud â dosbarthu'r deunydd yn gwybod bod dau fersiwn o'r un ddogfen ar gael a bod angen eu trin yn gyfartal.
- 2.5.7 Bydd yr holl ffurflenni cais am grant a deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan y Grŵp at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg neu'n ddwyieithog. Bydd yr holl ddeunyddiau hyn yn cynnwys datganiad i nodi bod croeso i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ac na fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.
- 2.5.8 Mewn achosion lle cyhoeddir fersiynau ar wahân o ffurflenni Cymraeg a Saesneg, bydd y deunydd esboniadol cysylltiedig yn cael ei gyhoeddi yn yr un iaith. Cyhoeddir y ddau fersiwn ar yr un pryd a byddant ar gael yr un mor hawdd ar bob un o'n campysau, ein gwefan, a manau dosbarthu eraill. Yn ogystal, bydd y naill fersiwn a'r llall yn egluro bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall.
- 2.5.9 Bydd y Grŵp yn cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog fydd yn cynnwys papurau pennawd, cardiau busnes, bathodynau adnabod, gwefan a deunyddiau a nwyddau corfforaethol eraill.

Ar yr holl ddeunyddiau corfforaethol, nwyddau ac arwyddion bydd fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

- 2.5.10 Bydd ein holl ddeunyddiau ysgrifenedig neu electronig yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ym mhob achos, bydd fformat,

ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y ddwy iaith yn gyfartal, ac ymdrinnir â'r ddwy iaith yn gyfartal.

- 2.5.11 Bydd yr holl arolygon a holiaduron yn ddwyieithog ac yn cael eu cefnogi gan ddeunydd dwyieithog. Cynhelir unrhyw gyfweiliadau cysylltiedig yn newis iaith y sawl sy'n cael ei gyfweld.

2.6 Cyhoeddusrwydd

- 2.6.1 Fel arfer, bydd holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd y Grŵp yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, mewn modd sy'n ymdrin yn gyfartal â'r ddwy iaith.
- 2.6.2 Bydd pob arddangosfa a gynhelir gennym yn ymdrin yn gyfartal â'r ddwy iaith. Bydd y Grŵp yn annog trefnwyr arddangosfeydd, arwyddion neu stondinau eraill sy'n defnyddio adeiladau'r Grŵp i ddefnyddio'r ddwy iaith.

2.7 Hysbysebion a Hysbysiadau

- 2.7.1 Bydd hysbysiadau cyhoeddus y Grŵp a hysbysebion recriwtio yn dangos y Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd yn unol â'r Safonau, a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 2.7.2 Bydd hysbysiadau ar y cyfryngau a datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau'n ddwyieithog mewn modd sy'n ymdrin yn gyfartal â'r ddwy iaith.
- 2.7.3 Bydd llefarwyr ar gael i gael eu cyfweld yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y cyfryngau.

3 Gweithredu Mewnol

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r modd y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu ac yn mynd y tu hwnt i hynny er mwyn sicrhau bod gweinyddiaeth fewnol y Grŵp yn parhau i fod yn ddwyieithog.

3.1 Bwrdd y Gorfforaeth

- 3.1.1 Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am drafod a chymeradwyo diwygiadau i'r Polisi a'r Cynllun Gweithredu Blynyddol yn rheolaidd. Yn fewnol, mae ganddo'r awdurdod i sicrhau bod y Safonau'n cael eu gweithredu'n effeithiol, ac yn allanol mae wedi ymrwymo i hyrwyddo arferion gorau.
- 3.1.2 Bydd y Bwrdd yn sicrhau ein bod yn cynnal Panel Iaith. Bydd y Bwrdd yn gofyn i'r Panel gynhyrchu'n flynyddol Gynllun Gweithredu ac Adroddiad ar Weithredu'r Safonau. Bydd yn ystyried unrhyw argymhellion a wneir yn yr adroddiad neu ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn fel y bo'n briodol.
- 3.1.3 Bydd y Bwrdd yn trafod ac yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Safonau yn flynyddol er mwyn monitro'r modd y caiff y Polisi a'r Safonau eu gweithredu.
- 3.1.4 Bydd y Bwrdd yn ymwybodol o ofynion statudol a bydd yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg pan fo angen.
- 3.1.6 Bydd y Bwrdd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 3.1.7 Bydd gan aelodau'r Bwrdd wybodaeth sylfaenol o Gymraeg i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i ynganu enwau Cymraeg, teitlau ac ati yn gywir.

3.2 Staffio a Recriwtio

- 3.2.1 Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n sicrhau bod gan weithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd ddigon o sgiliau priodol ymysg siaradwyr Cymraeg i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- 3.2.2 Byddwn yn adolygu'n rheolaidd pa weithleoedd neu swyddi yr ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' ar eu cyfer a pha rai yr ystyrir y Gymraeg yn 'ddymunol' ar eu cyfer. Mae hyn er mwyn gallu nodi faint o allu yn y Gymraeg sydd ei angen ym mhob achos. Bydd disgrifiadau swydd yn cael eu llunio'n unol â hyn.
- 3.2.3 Ar gyfer apwyntiadau i swyddi yr ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, rhaid profi gallu ymgeiswyr yn y ddwy iaith yn y cyfweiliad fel y bo'n briodol i'r rôl.

3.2.4 Pan fydd yn dymuno recriwtio siaradwyr Cymraeg, bydd Grŵp Llandrillo Menai'n gwneud hynny'n glir trwy osod hysbysebion am swyddi lle mae'r Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol mewn papurau newydd Cymraeg a Saesneg.

3.2.5 Byddwn yn adolygu ac yn asesu sgiliau iaith staff ac yn adrodd ar y canfyddiadau'n flynyddol. Bydd hyn yn helpu i lywio'n Cynllun Datblygu Staff.

3.3 Ymrwymiadau Tîm

3.3.1 Bydd staff y Grŵp sy'n gyfrifol am recriwtio staff yn asesu anghenion y sefydliad am staff Cymraeg eu hiaith wrth benodi. Byddant hefyd yn rhan annatod o'r camau a amlinellir yn 3.2.1 a 3.2.2 uchod.

3.3.2 Bydd yr holl fesurau a gynhwysir yn ein Polisi yn berthnasol i bob campws a phob agwedd ar ein gwaith.

3.3.3 Gwneir trefniadau ar gyfer meysydd lle na fydd pob agwedd ar y gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog.

3.3.4 Bydd gan Brif Weithredwr y Grŵp gyfrifoldeb arweiniol am weithredu a monitro'r Polisi a'r Safonau.

3.3.5 Mae gan y Grŵp Banel Iaith sy'n monitro'r Polisi'n rheolaidd ac yn sicrhau bod y Polisi'n cael ei weithredu mewn modd cynhwysfawr a chyson ar draws y sefydliad ac yn cyflawni ei ofynion yn ôl y Safonau. Y Panel sy'n gyfrifol am drafod a gwneud argymhellion ar bob mater sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Bydd yn paratoui Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd ac yn dod â materion i sylw'r Bwrdd os a phan fydd angen. Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn flynyddol a bydd ar gael ar fewnwyd y Grŵp ac ar ei wefan. Anfonir copiâu o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg.

3.3.6 Mae pob tîm yn gyfrifol am weithredu'r Polisi yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt.

3.3.7 Mae'r rhai sy'n gyfrifol am brosesau caffael a chynllunio ym maes systemau cyfrifiadurol yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion y sefydliad o ran gweithredu'r Polisi a chyflwyno'r Safonau. Lle na ellir addasu systemau cyfrifiadurol presennol i gydymffurfio'n llawn â'r Safonau, bydd ein Tîm TGCh yn adolygu'r systemau dan sylw yng ngoleuni'r Safonau ac yn cynnig mesurau i'w gwella o ran defnyddio'r Gymraeg.

3.4 Cyflogi, Hyfforddi a Datblygu Staff

- 3.4.1 Pan gânt eu penodi, bydd aelodau newydd o staff yn cael eu cyfeirio at gopïau o'r gofynion cydymffurfio â'r Polisi a'r Safonau Iaith Gymraeg sydd ar Borth y Grŵp. Fel rhan o'r broses gynefino, byddant hefyd yn cael eu briffio ar sut mae'r Polisi a'r Safonau'n cael eu gweithredu yn y Grŵp. Yn ogystal, bydd hyfforddiant ychwanegol ar agweddau ar hanes a diwylliant yr iaith Gymraeg ar gael i staff ar lechen Safonau'r Gymraeg ar Borth y Grŵp.
- 3.4.2 Bydd gan bob aelod o staff fynediad at ofynion cydymffurfio â Pholisi Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg a Safonau Iaith Gymraeg y Grŵp. Bydd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd i adrannau neu swyddfeydd i friffio aelodau staff ar ofynion y Safonau ac adolygu eu gweithrediad.
- 3.4.3 Gwahoddir staff i wneud sylwadau ar ansawdd deunyddiau Cymraeg i'n Prif Gyfieithydd, y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd neu aelodau o'r Panel Iaith.
- 3.4.4 Rydym yn annog ein staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu gallu i siarad Cymraeg. Bydd y Grŵp yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg trwy eu rhyddhau o'u gwaith am gyfnodau rhesymol i ddilyn cyrsiau iaith proffesiynol a thrwy dalu'r ffioedd dysgu sy'n gysylltiedig â chyrsiau o'r fath. Un o ddangosyddion perfformiad allweddol y Grŵp yw cynyddu canran y staff sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg eu hiaith a bydd yr ystyriaeth hon yn cael ei chynnwys yn ein Cynllun Dysgu a Datblygu.
- 3.4.5 Byddwn hefyd yn trefnu bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn cynnal sesiynau grŵp i wella gallu staff i siarad Cymraeg.
- 3.4.6 Bydd gan bob aelod o staff ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg i'w defnyddio wrth groesawu'r cyhoedd i gyfarfodydd, ac wrth roi cyfarchion cychwynnol ar y ffôn ac ati. Bydd sesiynau hyfforddi ar hyn ar gael i'r holl staff, pa un ai a ydynt yn dysgu Cymraeg ai peidio.
- ### 3.5 Cyfieithu
- 3.5.1 Bydd pob dogfen sydd i'w chyfieithu'n cael ei hanfon i Trosi, gwasanaeth cyfieithu'r Grŵp, drwy ddefnyddio'r llechen ar Borth y Grŵp.
- 3.5.2 Mewn cytundeb â'u Rheolwr Llinell, caniateir i staff addysgu gynnwys amser i gyfieithu deunyddiau yn eu cytundeb llwyth gwaith.
- 3.5.3 Bydd y Grŵp yn dibynnu ar ei dîm cyfieithu ar gyfer cyfieithu ysgrifenedig mewnol ac i reoli'r gwaith o ddirprwyo gwaith i gyfieithwyr allanol pan fo angen.

3.5.4 Pan fydd rhaid defnyddio cyfieithwyr allanol bydd y Prif Gyfieithydd yn sicrhau bod ganddynt gymwysterau addas a'u bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Bydd y Prif Gyfieithydd yn prawf ddarllen a safoni eu gwaith. Defnyddir y meini prawf canlynol i asesu'r gwasanaethau a gynigir:

- ansawdd gwaith
- adnabyddiaeth o'r pwnc a'r eirfa dechnegol a ddefnyddir
- prisiau cystadleuol
- sicrwydd bod y gwaith i gael ei gwblhau mewn pryd
- y defnydd o TGCh i gyflwyno gwasanaeth cyflym ac effeithlon
- cyfrinachedd
- indemniad priodol

4 Llunio Polisiâu

4.1 Polisiâu a Chynlluniau Newydd

- 4.1.1 Byddwn yn sicrhau bod polisiâu a chynlluniau newydd yn hyrwyddo ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb lle bynnag y bo'n berthnasol.
- 4.1.2 Byddwn yn sicrhau bod polisiâu a chynlluniau newydd yn gweithredu'n gyson â'n Polisi Iaith Gymraeg ac na fyddant yn tansellio gofynion y Safonau.
- 4.1.3 Rydym wedi ymrwymo i asesu canlyniadau ieithyddol polisiâu a chynlluniau newydd i sefydlu pa effaith maent yn debygol o'i gael ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.
- 4.1.4 Byddwn yn sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n llunio polisiâu a chynlluniau'n ymwybodol o'r Polisi a'r Safonau Iaith Gymraeg ac yn parchu'u gofynion.
- 4.1.5 Byddwn yn rhannu manylion cyswllt mentrau datblygu iaith ag unigolion a sefydliadau gyda'r nod o rannu adnoddau ac arbenigedd.

4.2 Tendrau

- 4.2.1 Pan fyddwn yn gwahodd tendrau am gontractau penodol, nodir y manylion ieithyddol yn y dogfennau tendro a bydd y trefniadau arferol ar gyfer monitro contractau o'r fath yn cynnwys adroddiadau rheolaidd ar berfformiad.
- 4.2.2 Os byddwn yn derbyn tendr yn y Gymraeg a bod angen cynnal cyfweiliadau, gall y sawl sy'n tendro ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen.
- 4.2.3 Byddwn yn cefnogi datblygiadau iaith Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus eraill ac yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith sefydliadau eraill yr ydym mewn cysylltiad â hwy.
- 4.2.4 Bydd disgwyl i sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Grwp i ddarparu gwasanaethau, cefnogaeth neu gyllid dalu am ddarparu deunyddiau Cymraeg. Bydd y Grŵp yn cynorthwyo partneriaid o'r fath i gysylltu â sefydliadau arbenigol priodol yng Nghymru.
- 4.2.5 Byddwn yn annog sefydliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Safonau Iaith Gymraeg i weithredu'n gyson ag ysbryd y Safonau. Gwneir hyn drwy wahodd

sefydliadau i egluro yn eu ceisiadau sut y byddant yn adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned y byddant yn gweithio ynddi a'r cwsmeriaid y byddant yn eu targedu.

4.3 Grantiau a Chontractau

- 4.3.1 Pan fydd y Grŵp yn cwblhau contractau ffurfiol â thrydydd partion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, bydd yn sicrhau bod telerau contractau o'r fath yn gyson â gofynion y Polisi a'r Safonau Iaith Gymraeg. Ar ben hynny, byddwn yn argymhell bod pob parti yn cyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

5 Monitro ac Adrodd

5.1 Monitro

5.1.1 Y Panel Iaith sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Polisi a'r Safonau Iaith Gymraeg yn cael eu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiadau holl dimau'r Grŵp wedi'u hamlinellu yn adran 3 uchod.

5.1.2 Mae'r Panel Iaith yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Grŵp ac yn cael ei gadeirio gan Bennaeth Coleg Menai / Coleg Meirion-Dwyfor. Mae'r Panel yn cynnal cyfarfodydd chwarterol ac yn adrodd ac yn cyflwyno argymhellion i'r Tîm Strategol.

5.1.3 Bydd y Panel yn mesur ei ddarpariaeth Gymraeg yn erbyn nifer o ddangosyddion a gefnogir gan ddata meintiol ar y canlynol:

- a) Nifer a chanran y swyddi yr ystyrir y Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer a nifer y rhai a lenwyd gan siaradwyr dwyieithog.
- b) Adnoddau a Sgiliau Dynol – nifer a chanran y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg a arweiniodd at gymhwyster penodol. Yn ogystal, nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ym maes ymwybyddiaeth iaith.
- c) Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – nifer a chanran y staff sy'n gallu siarad Cymraeg gyda dadansoddiad yn ôl adran, graddfeydd swyddi a champws.
- d) Ansawdd y Gwasanaeth – Nifer y cwynion a dderbyniwyd.
- e) Ein cynnydd, fel sefydliad, o ran cyflwyno tystiolaeth ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau a nodir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol.

5.2 Adrodd

5.2.1 Bydd y Panel Iaith yn adrodd i'r Bwrdd drwy gyflwyno adroddiad blynyddol (ar weithgarwch y flwyddyn ariannol) ar y Cynllun Gweithredu Blynyddol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys ein holl ymdrechion yn ogystal â hysbysu'r Bwrdd am unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol.

5.2.2 Fel arfer bydd copïau o'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu'n cael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg cyn fis Ionawr y flwyddyn ganlynol.

5.3 Datblygu Ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r Cynllun Gweithredu

5.3.1 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n Polisi Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu drwy:

- eu cyhoeddi ar Borth y Grŵp
- eu cyhoeddi ar wefan y Grŵp

5.3.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach ynghylch Polisi a Safonau'r Iaith Gymraeg at Gadeirydd y Panel Iaith.